Rheoliadau i wahardd Rhestrau sy'n Gwahardd Undebwyr Llafur

Asesiad o Effaith y Rheoliadau

1 (i) Teitl y mesur arfaethedig

Rheoliadau Gwahardd Rhestrau Gwahardd 2003

2 (i) Y materion trafod a'r amcanion

Ar hyn o bryd, mae'n anghyfreithlon i gyflogwyr wahaniaethu yn erbyn unigolion ar sail eu haelodaeth a'u gweithgareddau mewn undeb llafur. Serch hynny, nid yw'n anghyfreithlon i rai sy'n defnyddio rhestrau gwahardd annog cyflogwyr i wahaniaethu fel hyn drwy gyflenwi gwybodaeth iddynt sy'n enwi undebwyr llafur. Dyma anghysondeb y ceisiodd adran 3 o Ddeddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999 ei ddileu drwy gyflwyno pwer i wneud rheoliadau er mwyn gwahardd rhestrau sy'n gwahardd undebwyr llafur.

Nod y rheoliadau yw peri ei bod yn anghyfreithlon llunio, defnyddio neu gyflenwi rhestrau sy'n cynnwys manylion aelodau neu actifwyr undebau llafur, ac sy'n cael eu llunio gyda golwg ar gael eu defnyddio gan gyflogwyr neu asiantaethau cyflogaeth er mwyn gwahaniaethu wrth recriwtio neu mewn perthynas â thriniaeth gweithwyr.

2. (ii) Asesiad risg

Mae rhestrau gwahardd wedi'u defnyddio yn y gorffennol. Er enghraifft, yn ystod y 1980au, cynhyrchodd y Cynghrair Economaidd restrau a'u gwerthu i gyflogwyr. Aeth y mudiad â'i ben iddo wedyn.

Nid oes tystiolaeth o weithgarwch yn ymwneud â rhestrau gwahardd ar hyn o bryd. Er mwyn lleihau'r perygl o gael gormod o reoliadau, nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu rhoi rheoliadau ar waith nes bod yna dystiolaeth bod yr arfer wedi dychwelyd.

Mae yna dystiolaeth o restrau gwahardd mewn gwledydd eraill ac ni ellir gwarantu na fyddant yn dychwelyd yn y wlad hon. Pe bai rhestrau gwahardd yn ymddangos eto, mae yna berygl y gallai llawer o unigolion ddioddef caledi tra byddai rheoliadau'n cael eu paratoi. Oherwydd hynny, mae'r Llywodraeth yn dymuno paratoi manylion terfynol ei rheoliadau drafft ymlaen llaw er mwyn lleihau'r perygl o oedi.

Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol y gall rhai mudiadau lunio a defnyddio rhestrau o undebwyr llafur am resymau cwbl briodol. Yn benodol, gall fod gan yr undebau llafur resymau da dros wneud hyn. Mae yna berygl y gallai'r gweithgarwch dilys hwn gael ei wahardd neu ei gwtogi'n sylweddol pe na bai'r rheoliadau'n caniatáu i fathau penodol o restrau gael eu creu. Mae'r rheoliadau wedi ymdrin â hyn drwy greu gwahanol esemptiadau.

3. (i) Nodi'r opsiynau

Nid yw'r rheoliadau'n cynnig amrediad o opsiynau, er bod y ddogfen ymgynghori yn gofyn am sylwadau os oes gan yr ymatebwyr syniadau gwahanol i'w cynnig mewn perthynas â materion pwysig megis y mecanweithiau ar gyfer gorfodi a'r esemptiadau.

O dan Ddeddf Diogelu Data 1998, rhaid i reolwyr data ddilyn egwyddorion diogelu data penodol, ac maent o dan rwymedigaethau penodol o ran data personol sensitif (sy'n cynnwys aelodaeth undeb llafur). Mae'r Ddeddf yn cynnig rhywfaint o amddiffyniad i undebwyr llafur wrth ymdrin â chyrff sy'n defnyddio rhestrau gwahardd. Serch hynny, wedi ymgynghori â'r Comisiynydd Gwybodaeth, nid yw'r Llywodraeth o'r farn bod yr amddiffyniadau data cyffredinol yn ddigon i gyrraedd y nod a ddymunir, sef gwahardd rhestrau gwahardd a sicrhau bod unigolion a gaiff eu gosod ar restr wahardd yn cael iawndal priodol am unrhyw golled.

Yn y gorffennol, mae defnyddwyr rhestrau gwahardd wedi'u cymell gan ystyriaethau ideolegol yn ogystal â masnachol. Mae'r Llywodraeth o'r farn y byddai'r ffactor hwn yn cwtogi'n ddirfawr ar effeithiolrwydd unrhyw ddull o reoli rhestrau gwahardd heblaw rheoliadau, ac felly nid oes yr un dull arall yn cael ei gynnig fel opsiwn o fewn y ddogfen ymgynghori.

3 (ii) Materion cyfiawnder a thegwch

Mae'r undebau llafur yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau tegwch yn y gwaith, ac wrth helpu unigolion a fyddai fel arall yn ei chael yn anodd eu cynrychioli eu hunain. Yn unol â safonau cyfreithiol y cytunir arnynt yn rhyngwladol, dylai fod gan bob unigolyn (ac eithrio o dan amgylchiadau arbennig) hawl i berthyn i aelod llafur ac i ddod yn aelod gweithgar ohono. Mae'r rheoliadau hyn felly yn ategu triniaeth deg i unigolion yn y gwaith.

4 (i) Manteision

Pe bai'r rheoliadau'n cael eu cyflwyno, byddai'n golygu bod rhestrau gwahardd wedi ailymddangos neu fod bygythiad eu bod am ailymddangos. Mae rhestrau gwahardd yn hybu gwahaniaethu annerbyniol yn y gwaith. Mae hyn yn gosod y gweithwyr sydd ar restrau gwahardd o dan anfantais a gallent wynebu cyfnodau maith o ddiweithdra yn eu sgil. Byddai hefyd yn arwain at gamddyrannu llafur ar draws yr economi.

I gynnig enghraifft i ddarlunio hyn, £31,527 yw cyflog gros cyfartalog gweithiwr peirianyddol. Pe bai gweithiwr cyflogedig, oherwydd rhestr wahardd, yn methu â chael gwaith yn eu dewis ddiwydiant ac yn gorfod cael swydd a fyddai'n cynnig cyflog is - £12,294 i weithiwr arlwyo[1] er enghraifft, yna byddai'r costau i'r unigolyn yn uchel hyd yn oed pe bai'r effaith ar yr economi yn gymharol fach. Byddai'r rheoliadau felly yn dod â manteision drwy leihau neu drwy ddileu'r golled enillion a allai ddigwydd.

[1] Arolwg Enillion Newydd 2002, tt 22 a 26. Mae'r cyfog o £31,527 yn gyflog ar gyfer "Peirianwyr Sifil, Strwythurol, Trefol, Peirianwyr Mwyngloddio a Chwarela" a'r £12,294 yn gyflog ar gyfer gweithiwr mewn arlwyo.

Mae undebau llafur yn cyflawni tasgau buddiol yn y gweithle drwy helpu i sicrhau bod gwaith yn cael ei drefnu yn briodol ac yn gynhyrchiol. O ran eu heffeithiolrwydd, maent yn dibynnu ar sicrhau gwasanaeth aelodau undeb i ddod yn gynrychiolwyr lleyg i'r union. Mae'r teimlad o ofn dioddef gwahaniaethu o du'r cyflogwyr yn un rheswm pam y mae diffyg cynrychiolwyr lleol mewn llawer o weithleoedd lle ceir undeb. Drwy leihau'r ofnau hyn, byddai'r rheoliadau'n creu manteision drwy hybu'r cyflenwad o gynrychiolwyr lleyg posibl i'r undebau. Dylai hynny fod o les i'r undebau, i'r cyflogwyr ac i aelodau undeb eraill.

5 (i) Y sectorau busnes yr effeithir arnynt

Nid oes gennym wybodaeth ynghylch a oes unrhyw sectorau wedi defnyddio rhestrau gwahardd yn y gorffennol yn fwy na'i gilydd. Mae'n debyg mai'r rhai lle mae gan yr undebau llafur bresenoldeb cryf yn barod a/neu lle mae hanes o gysylltiadau gwael rhwng yr undebau a'r cyflogwyr yw'r sectorau a fyddai debycaf o gael eu heffeithio. Fel y soniwyd uchod, byddai angen i gyrff fel undebau llafur sy'n trafod data undebau llafur am resymau busnes cyffredin edrych yn ofalus ar y rheoliadau i sicrhau bod eu harferion yn dal yn gyfreithlon. Mae'r rheoliadau'n cynnwys esemptiadau sy'n rhoi lle i'w gweithgareddau dilys hwy barhau heb eu newid.

Nid yw'n hysbys i ba raddau y mae asiantaethau cyflogaeth yn cadw gwybodaeth am aelodaeth undeb llafur eu gweithwyr cyflogedig. O waith ymchwil a gomisiynwyd gan y DTI, gwyddom fod rhwy 550,000 o weithwyr asiantaeth yn cael eu lleoli bob blwyddyn. Hefyd, mae 600,000 o weithwyr yn cael eu gosod mewn swyddi parhaol yn ystod yr un cyfnod.[2]

Nid oes gennym ddim tystiolaeth bod elusennau a'r sector gwirfoddol wedi defnyddio rhestrau gwahardd.

5 (ii) Cyfanswm y costau cydymffurfio

Ni fydd y rheoliadau yn effeithio dim ar lawer o gyrff a hynny am na fyddent byth yn ystyried defnyddio gwasanaethau lluniwr rhestr wahardd. Mae gwahardd llunio a defnyddio rhestrau gwahardd yn effeithio ar y rhai sy'n cynhyrchu'r rhestrau ac sydd felly yn colli eu busnes os na allant eu gwerthu mwyach. Fel y dywedwyd uchod, nid oes enghreifftiau hysbys o weithgareddau o'r fath ar hyn o bryd, ac nid yw'n debyg iawn y byddai nifer arwyddocaol o gyrff byth yn dymuno rhoi gwasanaethau o'r fath i gyflogwyr.

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol ar ddiogelu data eisoes yn gwahardd defnyddio rhestrau gwahardd i ryw raddau.

Fe allai cyrff wynebu costau unwaith yn unig wrth fwrw golwg i sicrhau bod eu harferion cyflogi a recriwtio presennol yn cydymffurfio â'r gyfraith newydd, gan gynnwys yr esemptiadau ynddi. Gallai hyn effeithio yn arbennig ar undebau llafur a chyrff eraill sy'n casglu ac yn defnyddio gwybodaeth am undebau.

[2] Tueddiadau'r Farchnad Lafur, Hydref 2000

Byddai angen i'r undebau wneud yn siŵr na fyddai eu harferion hwythau yn torri'r gyfraith yn ddamweiniol. Serch hynny, fe allai'r gost hon fod yn fwy i'r undebau mwyaf sydd â chofnodion manylach am eu haelodau. Yr amcangyfrif yw mai £156 ar gyfartaledd fydd y gost i un undeb, ar y rhagdybiaeth o un diwrnod o waith i swyddog undeb ac un cynorthwyydd clerigol[3]. Yn y DU mae 199[4] o undebau llafur wedi'u rhestru, ac felly yr amcangyfrif o'r gost i'r undebau llafur hyn yw £34,000[5].

Gall y gost i'r cyflogwyr gael ei rhannu rhwng dau faes. Yn gyntaf, ceir cyflogwyr a allai ddefnyddio rhestrau o'r fath, ond nid yw'n debyg y bydd y ddeddfwriaeth yn golygu fawr o gost i'r rhain. Yn ail, gall fod rhaid i gwmnïau mawr sydd â sawl safle fwrw golwg i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yn eu holl brosesau recriwtio. Er enghraifft, gallai polisïau personél wahardd defnyddio rhestrau gwahardd, ond, os nad yw'r recriwtio'n digwydd yn ganolog, yna fe all y bydd rhaid cael golwg ar y gweithdrefnau neu ddiwygio neu gyhoeddi canllawiau.

Yn y mwyafrif o'r achosion, ychydig iawn o waith fydd y gwirio hwn, dim mwy nag awr o waith yn ôl pob tebyg. Serch hynny, mewn rhai achosion efallai y bydd y gwaith gwirio'n fwy sylweddol (i gael gwybod a yw'r cwmni'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth er enghraifft) ac fe allai hynny olygu diwrnod o waith. Amcangyfrifir mai £305,000 fydd cost y gwaith hwn. Mae hyn yn rhagdybio y bydd y broses yn cynnwys awr o amser rheolwr yn y mwyafrif o'r achosion a diwrnod o waith mewn lleiafrif o'r achosion[6].

6 (i) Yr effaith ar fusnesau bach

Nid ydym yn gwybod a yw busnesau bach yn fwy neu'n llai tebyg o ddefnyddio rhestrau gwahardd na chyrff eraill. Er hynny, mae undebaeth yn isel fel arfer yn y busnesau hyn ac mae'n bosibl felly na fyddai llawer ohonynt yn gweld fawr o reswm dros ddefnyddio gwasanaeth rhestrau gwahardd.

---

[3] Cost = [(1/5*£483.3) + (1/5*£292.8)]. Daw'r data ar enillion o Arolwg Enillion Newydd 2002, tt 20 a 25.

[4] Adroddiad Blynyddol y Swyddog Ardystio 2001-02, nifer yr undebau ar restrau ar 31 Mawrth 2002

[5] Cyfanswm y Gost = 199 * £168.

[6] Y Gwasanaeth Busnesau Bach, Ystadegau'r DU ar gyfer 2001, Cwmnïau â mwy na 500 o weithwyr. Cyfanswm y Gost (£305,026) = (447*2065.4)+(4018*£29.96). Yr ydym yn rhagdybio mai 90% o'r holl gwmnïau mawr yw'r mwyafrif o'r achosion (4018 o 4465 o gwmnïau). Cymerir mai 10% o'r holl gwmnïau mawr yw'r lleiafrif o achosion a bod hyn yn cyfateb i 447 o gwmnïau.
Daw'r data ar enillion o Arolwg Enillion Newydd 2002, tt ("Rheolwyr Cyffredinol, Cwmnïau a Chyrff Mawr").